


Magnox Socio-economic funding in the community 2020/21



Last financial year was definitely very different in terms of socio-economic, yet one on the busiest and most rewarding in terms of supporting our communities. From Covid support to a new One NDA system, from a budget of £1.02m, there was only £1,649 left unspent.

Magnox also secured an additional £2m NDA funding across the sites for the larger, some multi year, projects.

You will recall back in April 2020, Magnox and the NDA announced a £300,000 cash boost from the scheme to help support vulnerable groups surrounding the sites with Covid-19 related activities (£25,000 per site).

Gwynedd Council received and distributed £25,000 of support to the communities around Trawsfynydd during the pandemic on behalf of Magnox.

This funding purchased PPE for volunteers; a 3D printer and materials for Coleg Meirion Dwyfor to produce visors for care workers; a hot water boiler and freezers for South Gwynedd Food Bank to cope with additional demand; food provisions and fridges for Grandma's Attic Food Bank; baby boxes providing essential supplies for families in need; creativity kits for low income families and top up provisions for the foodbanks. You will also recall the staff who volunteered and the release of equipment by Magnox in support of essential front line services.

In addition, last year, six organisations, in the surrounding communities of Trawsfynydd site, were awarded funding through the Socio-economic scheme, totalling £186,150.


Prysor Angling received £1,000 in March to purchase 20 new bilingual signs to improve the area around the fishing centre and Trawsfynydd Lake.

Llanuwchllyn Football Club benefitted from £1,000 towards their new 100 seat spectator stand, with the club raising a further £16,000 to meet the new criteria set by the Welsh Football Association.



South Snowdonia Search and Rescue Team received £2,900 from the scheme to purchase new waterproof jackets for 20 team volunteers. The clothing is vital for the individuals who brave all weathers out in the elements on the mountains, carrying out fantastic work from their base at Bryn Adda.

The Outdoor Partnership, year 3, £180,000 over five years to support £1.5m project.



Some of the group out on Y Glyderau

Despite the pandemic, The Outdoor Partnership successfully continued to deliver the Inclusive Adventure and Pathways to Employment Programmes, both supported by the Magnox socio-economic scheme. As with other organisations, many elements had to be conducted virtually during the lockdowns.

The Active Inclusion project gives local young people (18-24) from Gwynedd and Anglesey the opportunity to enter onto a journey towards sustainable employment in the outdoor sector through walking and climbing.

It provides participants who are not in education, employment or training, with the essential skills and qualifications required by employers within the outdoor sector in North Wales.

Part of the programme is concentrating on reactivating a 12 week pilot 'Healthy and Active' project, working with mental health teams in the area. Support for special need schools to help staff with risk assessments and use of sports equipment safely is also ongoing giving them confidence to be more self-reliant in the future.



In March 2021, The Outdoor Partnership became the first third sector organisation to achieve the Disability Sport Wales Insport Silver Accreditation.

The priority now is to help prepare local sports clubs to re-open safely. The Volunteer Programme with Snowdonia National Park is now offering free membership, encouraging people to sign up.

Menter Môn, Arloesi Gwynedd Wledig, year two - £285,000 over three years

Magnox funding contributes to the LEADER Programme, in particular Implementation and Cooperation.

Three pilot projects within the programme, 'Llwyddo'n Lleol', 'Amser I Fentro' and 'Byw a Bod' have progressed well despite Covid.

'Amser i Fentro' supports local people into full time roles, playing on the 20%/ 80% theory, funding a day a week through the scheme for individuals to concentrate on a personal business development, whilst also working alongside their current employers to make it possible.



Over a ten week period, 'Llwyddo'n Lleol' worked with 14 young entrepreneurs, giving them business advice helping them to turn their talents into actual businesses on their door step.

Lleucu Gwenllian Williams of Blaenau Ffestiniog, a talented freelance designer had support to develop a creative studio in North Wales specializing in graphic design, animation and illustration. @Lleucu_illustration

Lois Angharad Jones from Pentrefelin is now producing, selling and promoting a Welsh brand of Sôs Coch (Ketchup) using local Welsh produce.

A further 22 businesses also benefitted from support in the last six months, for example:

Daniel Lewis from Caernarfon has just won the Hwb Menter award, The Enterprise Hub at MSParc – With his 'Lens dros y Ffens' business initiative. Dan draws pictures and videos using a drone. He now offers his service to a range of clients



including estate agents, commercial organisations, camping sites, sports teams, and building projects. @LensDrosYfffens

Llwyddo'n Lleol has enabled me to turn my idea into a reality – without Llwyddo'n Lleol, that idea, would still be an idea, and one that goes nowhere. The scheme has given me confidence and motivation to move on and do something about it while providing specialist support throughout the whole period. With Llwyddo'n Lleol's help, I've certainly developed a lot as a person as well, having become more independent, having had to adapt and make decisions (which hasn't been easy) and it's certainly helped to develop my self-esteem and self-worth. - **Lois Hughes, Arwyddo**



Also, Lois Hughes from Pwllheli – having studied the British Sign Language (BSL) for some years, Lois realised that resources using the mouth shape of the Welsh language were not available. She decided that this needed to be changed and has therefore been working to establish a BSL app through the medium of Welsh.

Another successful prototype scheme created during Covid was 'Siop.io'. Working alongside a local web developer, 20 local businesses were offered a new, easy to use platform to sell their products online. Photos of the products and initial set up were provided as part of the scheme. One local bakery made a profit of £15,000, by selling his products on this new platform during lockdown.

siopio

£50k+

O werthiant wedi cael ei wneud ers sefydlu'r wefan
of sales made since setting up the website

ENTERPRISE The Enterprise theme supports

development of new products and services


“
Siop.io helps take away a lot of the paperwork - so we can concentrate on the baking and shop side of our business.
”

GERAIANT JONES
Becws Isllyn

www.siop.io

If you know of any local organisations that might benefit from Magnox Socio-economic Scheme support then please go to <https://www.gov.uk/government/collections/magnox-working-with-our-communities> where you can check out the guidance and criteria for applying.

Cyllid economaidd-gymdeithasol Magnox yn y gymuned 2020/21



Heb amheuaeth roedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn un wahanol iawn o ran materion economaidd-gymdeithasol, ond er hynny roedd yn un o'r prysuraf a mwyaf boddhaus o safbwynt cefnogi ein cymunedau. O gymorth Covid i Un system newydd yr NDA, o gyllideb o £1.02m, dim ond £1,649 oedd ar ôl heb ei wario.

Llwyddodd Magnox hefyd i sicrhau £2m o gyllid ychwanegol yr NDA i'r safleoedd ar gyfer y prosiectau mwy, a fydd yn rhedeg am sawl blwyddyn.

Mi gofiwch yn ôl ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd Magnox a'r NDA hwb ariannol o £300,000 drwy'r cynllun i helpu grwpiau agored i niwed yng nghyffiniau'r safleoedd i helpu â gweithgarwch a oedd yn gysylltiedig â Covid-19 (£25,000 y safle).

Cafodd a dosbarthodd Cyngor Gwynedd £25,000 o gymorth i'r cymunedau yn ardal Trawsfynydd yn ystod y pandemig ar ran Magnox.

Talodd hyn am gyfarpar PPE i wirfoddolwyr; argraffydd 3D a deunyddiau i Goleg Meirion Dwyfor i gynhyrchu feisorau i weithwyr gofal; boeler dŵr poeth a rhewgelloedd ar gyfer Banc Bwyd De Gwynedd i ymdopi â'r cynnydd yn y galw; cyflenwadau bwyd ac oergelloedd ar gyfer Banc Bwyd Grandma's Attic ; blychau babanod a oedd yn cynnwys cyflenwadau hanfodol i deuluoedd mewn angen; pecynnau creadigrwydd i deuluoedd ar incwm isel a chyflenwadau ychwanegol i'r banciau bwyd. Mi gofiwch hefyd am y staff a wirfoddolodd a bod Magnox wedi rhyddhau cyfarpar i helpu gwasanaethau rheng flaen allweddol.

Hefyd, y llynedd, dyfarnwyd arian i chwe mudiad, yn y cymunedau yng nghyffiniau Trawsfynydd, drwy'r cynllun Economaidd-gymdeithasol, a oedd yn werth cyfanswm o £186,150.

Cafodd **Pysgota Prysor** £1,000 ym mis Mawrth i brynu 20 o arwyddion dwyieithog newydd i wella'r ardal o gwmpas y ganolfan bysgota a Llyn Trawsfynydd.

Cafodd **Clwb Pêl Droed Llanuwchllyn** £1,000 tuag at eu heisteddle 100 sedd newydd, gyda'r clwb yn codi £16,000 arall i gydymffurfio â meini prawf newydd Cymdeithas Bêl Droed Cymru.



Cafodd **Tim Chwilio ac Achub De Eryri** £2,900 gan y cynllun i brynu siacedi newydd sy'n dal dŵr ar gyfer 20 o wirfoddolwyr. Mae'r dillad yn hanfodol i'r unigolion sy'n mynd allan i'r mynyddoedd ym mhob tywydd, gan wneud gwaith mor werthfawr o'u pencadlys ym Mryn Adda.

Y Bartneriaeth Awyr Agored, blwyddyn 3, £180,000 dros bum mlynedd i gefnogi'r prosiect £1.5m.



Rhai o'r grŵp ar y Glvderau

Er gwaetha'r pandemig, mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi parhau i redeg Rhaglenni Anturiaethau Cynhwysol a Llwybrau at Gyflogaeth, sydd ill dwy wedi cael cefnogaeth gan gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox. Yn yr un modd â llawer o sefydliadau, bu'n rhaid i lawer o elfennau o'u rhaglenni gael eu cynnal yn rhithiol yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau symud.

Mae'r prosiect Cynhwysiant Gweithredol yn cynnig cyfle i bobl ifanc lleol (18-24 oed) o Wynedd a Môn i gychwyn ar siwrnai tuag at gyflogaeth gynaliadwy yn y sector awyr agored drwy gerdded a dringo.

Mae'n agored i gyfranogwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i gael y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyflogwyr yn y sector awyr agored yn y Gogledd.

Mae rhan o'r rhaglen yn canolbwyntio ar adfywio prosiect peilot 12 wythnos 'Iach ac Egnïol', sy'n gweithio â thimau iechyd meddwl yn yr ardal. Mae cymorth i ysgolion anghenion arbennig i gynorthwyo staff i gynnal asesiadau risg ac i ddefnyddio cyfarpar chwaraeon yn ddiogel yn parhau, gan sicrhau eu bod yn ddigon hyderus i fod yn fwy hunan ddibynnol yn y dyfodol.



Ym mis Mawrth 2021, y Bartneriaeth Awyr Agored oedd y mudiad trydydd sector cyntaf i sicrhau Achrediad Insport Arian Chwaraeon Anabledd Cymru.

Y flaenoriaeth yn awr yw helpu i baratoi clybiau chwaraeon lleol i ailagor yn ddiogel. Mae'r Rhaglen Gwirfoddolwyr gyda Pharc Cenedlaethol Eryri yn awr yn cynnig aelodaeth am ddim, i annog pobl i ymuno.

Menter Môn, Arloesi Gwynedd Wledig, ail flwyddyn - £285,000 dros dair blynedd

Mae Magnox yn cyfrannu arian at y Rhaglen LEADER, a Gweithredu a Chydweithredu'n fwyaf penodol.

Mae tri phrosiect peilot sy'n rhan o'r rhaglen, 'Llwyddo'n Lleol', 'Amser i Fentro' a 'Byw a Bod' wedi gwneud cynnydd da, er gwaethaf Covid.

Mae 'Amser i Fentro' yn helpu pobl leol i gael swyddi llawn amser, gan ddilyn y ddamcaniaeth 20%/ 80%, gan ariannu diwrnod yr wythnos drwy'r cynllun i alluogi unigolion i ganolbwyntio ar ddatblygiad busnes personol, wrth weithio ochr yn ochr â'u cyflogwr presennol i gyflawni hyn.

Dros gyfnod o ddeg wythnos, bu 'Llwyddo'n Lleol' yn gweithio â 14 o entrepreneuriaid lleol, gan roi cyngor busnes iddynt i'w helpu i ddefnyddio eu talentau mewn busnesau go iawn ar garreg eu drws.

Cafodd Lleucu Gwenllïan Williams, dylunydd llawrydd talentog o Flaenau Ffestiniog, help i ddatblygu stiwdio greadigol yn y Gogledd sy'n arbenigo mewn dylunio graffeg, animeiddio a darlunio. @Lleucu_illustration

Mae Lois Angharad Jones o Bentrefelin yn awr yn cynhyrchu, yn gwerthu ac yn hyrwyddo brand Cymreig o Sôs Coch gan ddefnyddio cynhwysion Cymreig lleol.

Mae 22 o fusnesau eraill hefyd wedi elwa ar gefnogaeth yn ystod y chwe mis diwethaf, gan gynnwys:



Mae Daniel Lewis o Gaernarfon newydd ennill gwobr Hwb Menter, yr Hwb Menter yn MSParc – gyda'i fenter busnes 'Lens dros y Ffens'. Mae Dan yn gwneud lluniau a fideos gan ddefnyddio drôn. Mae bellach yn cynnig ei wasanaeth i amrywiaeth o gleientiaid gan gynnwys gwerthwyr tai, sefydliadau masnachol, meysydd gwerysyla, timau chwaraeon, a phrosiectau adeiladu @LensDrosYFfens



Mae Llwyddo'n Lleol wedi galluogi i fi droi syniad yn fy mhen i mewn i realiti – heb Llwyddo'n Lleol mashwr na dal syniad yn fy mhen fysa fo a hwnnw'n mynd i unman. Mae'r cynllun wedi rhoi hyder a chymhelliant i fi symud ymlaen i wneud rhywbeth am y peth a hynny wrth ddarparu cefnogaeth arbennig drwy'r holl gyfnod. O dan adain Llwyddo'n Lleol dwi'n sicr wedi datblygu lot fel person hefyd, wedi dod yn fwy annibynnol, wedi gorfod addasu i wneud penderfyniadau (sydd ddim wedi bod yn hawdd) ac yn sicr mae o wedi helpu datblygu fy hunan-hyfer a hunanwerth.

- Lois Hughes, Arwyddo




Sylweddolodd Lois Hughes o Bwllheli - ar ôl bod yn astudio laith Arwyddo Prydain (BSL) am rai blynyddoedd - nad oedd NDAoddau ar gael sy'n defnyddio siâp y geg wrth siarad Cymraeg. Penderfynodd bod hwn yn angen yr oedd angen ei ddiwallu ac mae wedi bod yn gweithio i ddatblygu ap BSL drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynllun prototeip arall a ddatblygwyd yn ystod Covid oedd 'Siop.io'. Gan weithio ochr yn ochr â datblygwr gwefannau lleol, cafodd 20 o fusnesau lleol gynnig plattform newydd, hawdd ei ddefnyddio i werthu eu cynnyrch ar-lein. Roedd tynnu ffotograffau o'r cynnyrch a rhoi deunydd ar y wefan ar gael fel rhan o'r cynllun. Gwnaeth un becws lleol elw o £15,000, drwy werthu eu cynnyrch ar y plattform newydd hwn yn ystod y cyfyngiadau symud.



“ Mae Siop.io yn helpu ni leihau llawer o waith papur - sy'n ein galluogi ni i ganolbwyntio ar elfennau eraill o'r busnes, y pobi a'r siop. ”

GERAINT JONES
Becws Isllyn



www.siop.io



MENTRO Mae'r thema Mentro yn cefnogi datblygiad cynnyrch a gwasanaethau newydd

development of new products and services

siopio

£50k+

O werthiant wedi cael ei wneud ers sefydlu'r wefan of sales made since setting up the website

The Enterprise theme supports ENTERPRISE

Os gwyddoch chi am unrhyw sefydliadau lleol a allai elwa ar help gan Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox, ewch i <https://www.gov.uk/government/collections/magnox-working-with-our-communities> lle cewch ragor o wybodaeth a'r meini prawf ar gyfer ymgeisio.